At: Swyddogion Cyfrifol

1 Hydref 2021

Annwyl gydweithiwr,

Diweddariad i'r Polisi Dynodi Rheoleiddiol

Fel rhan o'n hadolygiad polisi oedd wedi'i drefnu, rydym wedi diweddaru'r Polisi Dynodi a heddiw mae'r polisi diwygiedig wedi'i gyhoeddi ac yn dod i rym.

Mae'r newidiadau i'r polisi yn adlewyrchu ein pwerau statudol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru (2015). Er nad yw'r pwerau hyn yn newydd, mae dwy adran newydd yn y polisi diwygiedig yr hoffem dynnu eich sylw atynt:

- Dynodi at ddibenion penodol; a
- Chymwysterau dynodedig sydd yr un fath â chymwysterau Cymeradwy neu'n debyg iddynt;

I'ch cynorthwyo, rydym hefyd wedi cynhyrchu nodiadau esboniadol sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ac sy'n cynnwys tair astudiaeth achos sy'n dangos sut rydym yn rhagweld y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith mewn gwaith diwygio cymwysterau yn y dyfodol.

Rydym bob amser yn croesawu adborth ac os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr uchod, cysylltwch â ni ar polisi@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir,

Jo Richards

Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org